# Pererindod Canol Oesol yng Nghymru

<u>Amcanion dysgu</u>

Ar ddiwedd y gweithgaredd hwn fe ddylai disgyblion allu

- diffinio "pererindod" a "pererinion"

- rhoi rhai rhesymau pam bod pobl yn mynd ar bererindod.

- rhestru 3 lle yng Nghymru i ble y byddai pobl yn mynd ar bererindod.

- meddwl am eich pererindod chi neu siwrnai arbennig.



Mae pererindod yng Nghymru yn dyddio nôlcanrifoedd. Yn y Gogledd, mae tystiolaeth bod pobl yn ymweld â safleoedd sanctaidd mor gynnar â'r 7fed Ganrif! Pan 'rydym yn ystyried pererindod ym Mhrydain, 'rydym fel arfer yn meddwl am bobl fel y dyn hwn - mynach Cristnogol.

Ond gallai unrhyw un fynd ar bererindod, nid dim ond lleianod, mynachod a phobl grefyddol eraill.

Roedd mynd ar bererindod yn golygu mynd ar siwrnai, ar droed fel arfer, i le crefyddol.

## Pererindod Canol Oesol yng Nghymru

Un o'r safleoedd pererindod pwysicaf yng Nghymru yw Tŷ Ddewi yn Sir Benfro.



Fel y gwyddoch eisoes, Dewi Sant yw Nawddsant Cymru, a phan fu farw yn 589 OC, cafodd ei gladdu yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi. Roedd pobl yn yr oesoedd canol yn credu os byddent yn agos at sant, hyd yn oed gweddillion un, byddai hynny yn eu dwyn yn nes at Dduw. Roeddent yn credu yn aml fod gan eitemau a llefydd oedd yn gysylltiedig â sant y grym i iachâu.




Nid Tŷ Ddewi oedd yr unig le y byddai pobl ar bererindod yng Nghymru, yn ymweld ag e'.

Sefydlodd urdd Sistersaidd mynachod nifer o fynachlogydd ac eglwysi ledled Cymru sydd heddiw wedi'u cysylltu gan lwybr cerdded o'r enw Ffordd Sistersaidd. Mae rhai o'r lleoedd y gallwch gerdded iddyn nhw ar hyd y llwybr hwn yn lleol i'ch ysgolion.

# Pererindod Canol Oesol yng Nghymru

Ydych chi'n adnabod unrhyw un o'r llefydd yma?





Tasg 1

Ewch ar y rhyngrwyd i wneud ychydig o ymchwil er mwyn dod o hyd i atebion i'r cwestiynau hyn.

Gallwch gael cip ar cadw.gov.uk, www.cistercianway.wales neu www.monasticwales.org

a. Oes yna gysegrfeydd, abatai neu fynachlogydd yn eich ardal chi?

b. Pryd cawson nhw eu hadeiladu, a gan bwy?

c. Ydych chi'n gwybod enwau unrhyw eglwysi yn eich ardal chi? Os cânt eu henwi ar ôl sant (e.e. St Illtyd’s, St. Paul’s, St. Cadoc’s) darganfyddwch pwy ydyn nhw. Yn eithaf aml mae gan y seintiau hyn straeon diddorol iawn.

# Pererindodod Canol Oesol yng Nghymru

Tasg 2

'Roedd pob math o bobl yn dewis mynd ar bererindod. Cyfoethog neu dlawd, hen neu ifanc, 'roedd gan bob un ei reswm am fynd ar y daith. Byddai pobl oedd yn glaf ac wedi cael anaf yn mynd gan obeithio y byddent yn cael iachâd. Byddai troseddwyr, neu'r rheiny oedd yn credu eu bod wedi gneud cam yn mynd i geisio cael maddeuant gan Dduw. Byddai rhai yn mynd i ddangos eu ffydd yn Nuw. Hwyrach y byddai menyw yn mynd ar bererindod er mwyn cynyddu'r siawns o gael babi, tra y byddai eraill efallai yn mynd ar bererindod er mwyn byrhau'r cyfnod ym mhurdan ar ôl iddyn nhw farw.

Dychmygwch un person s'yn byw yn y 1200au. Mae wedi penderfynu mynd ar bererindod i le sanctaidd.

Mae'n rhaid yn gyntaf creu cymeriad canol oesol, a meddwl pam ei fod ef neu hi am fynd ar bererindod. Rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau i chi allai eich helpu chi i feddwl sut fyddai'ch cymeriad yn edrych. Meddyliwch ai dyn neu fenyw ydych chi, hen neu ifanc, cyfoethog neu dlawd. Beth yw'ch gwaith chi? Oes gyda chi deulu? Ble ydych chi'n byw (yn y dre neu yn y wlad)?

Efallai yr hoffech chi wneud bach o ymchwil i wisgoedd y 13G (1200au) gan ddefnyddio'r rhyngrwyd neu lyfrau o'r llyfrgell. Byddai'n rhaid i wisg y pererinion fod yn ymarferol ac yn addas ar gyfer pob math o dywydd, yn enwedig yng Nghymru! Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol yma:

https://www.medievalists.net/2011/11/pilgrims-and-fashion-the-functions-of-pilgrims-garments/

## Pererindod Canol Oesol yng Nghymru



Unwaith i chi gael y cymeriad, meddyliwch am y rhesymau y byddai ef neu hi yn dewis i fynd ar bererindod. Rhowch nodyn mewn dyddiadur neu lythyr yn egluro'r rhesymau. Ceisiwch ddisgrifio teimladau'r cymeriad- ef neu hi - fydd yn mynd ar y daith - ydyn nhw'n nerfus neu'n gyffrous? Ydyn nhw'n gofidio na fydd y bererindod yn gallu helpu neu a ydyn nhw'n hyderus y gall weithio? Sut maen nhw'n teimlo am fynd ar daith gerdded hir? A fyddan nhw'n teithio ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill?

Meddyliwch hefyd am y pethau y gallwch fynd gyda chi ar y daith. Weithiau yn y gorffennol, byddai pobl yn cario creiriau (gallai'r rheiny fod yn rhan o gorff neu eiddo person sanctaidd), neu groes efallai, a byddai angen yr offer iawn i fwyta ac yfed.

# Pererindod Canol Oesol yng Nghymru

Tasg 3

Yn y dasg gyntaf cawsoch olwg ar gysegrfeydd, mynachlogydd, ac eglwysi yn eich ardal. Mae'ch cymeriad yn mynd ar bererindod i un o'r cysegrfeydd 'rych chi wedi darganfod. Tynnwch lun o fap syml yn dangos sut y gall y cymeriad gyrraedd y safle o ble 'rydych chi'n byw. Beth am gynnwys lluniau a symbolau i gynrychioli pethau y gall fynd heibio iddyn nhw.

O dan y map, rhowch esboniad byr o pam rydych chi'n meddwl bod y gysegrfa yn bwysig neu'n ddiddorol. Pam 'rydych chi'n meddwl bod pobl wedi mynd ar bererindod i'r safle? A fyddai unrhyw beth a basiodd ar y ffordd (eglwysi, pentrefi, mynachlogydd) wedi gwneud y daith yn fwy arbennig.

Tasg 4



Mae llawer o grefyddau ar draws y byd yn cynnal pererindodau. Er enghraifft, mae Mwslimiaid yn teithio i Fecca yn Saudi Arabia yn ystod yr Hajj, tra bod Sikhiaid yn mynd ar bererindod i 'r Hamandir Sahib yn Amritsar, Gogledd India.

Mecca



Teml Aur Amritsar

# Pererindod Canol Oesol yng Nghymru

Ond dyw pererindod bod tro ddim yn weithgaredd crefyddol. Gall rhai mynd ar bererindod ysbrydol, tra gall eraill fynd i le sy'n golygu llawer iddyn nhw. Efallai byddwch yn mynd ar bererindod i fan geni rhywun rydych yn ei edmygu, neu i le sy'n bwysig i chi pan 'roeddech yn blentyn bach. Bydd eraill efallai yn mynd ar bererindod i le o bwysigrwydd hanesyddol. Dyma i chi rai enghreifftiau.










# Pererindod Canol Oesol yng Nghymru





Un ystyr i bererindod sydd yn y geiriadur yw "ymweliad â lle sy'n cael ei ystyried yn arbennig, ble rych chi'n mynd i ddangos parch".

Eich tasg chi yw meddwl am le sy'n bwysig i chi ac y gallech fynd iddo ar bererindod. Efallai yr hoffech dynnu llun ohono ac esbonio pam 'rydych chi wedi dewis y lle hwnnw a pham ei fod yn bwysig i chi.

Meddyliwch am y cwestiynau hyn wrth i chi ysgrifennu

Sut allech chi wneud y daith hon yn arbennig.? A allech chi fynd ag unrhywbeth (fel crair) gyda chi?

A fyddech chi'n cerdded i'r lle neu fynd yn y car? Pam?

A fyddech chi'n gwisgo rhywbeth arbennig, neu a fyddai angen i chi wisgo rhywbeth ymarferol?

A fyddech chi'n ymweld â llefydd arbennig ar eich ffordd?

**Pererindod Canol Oesol yng Nghymru**

Syniadau eraill

1. Mewn rhai safleoedd pererindod, byddai bathodynnau pererin yn cael eu gwerthu fel swfenîrs.



Rhowch gynnig ar ddylunio eich bathodyn eich hun ar gyfer eich safle pererindod arbennig.

2. Gwnewch ddyddiadur fideo o daith arbennig, a soniwch fel i chi baratoi ar ei chyfer, beth sy'n ei gwneud yn arbennig, a sut mae'n gwneud i chi deimlo.

3. Crëwch daith bererindod a chysegrfa neu eglwys ar Minecraft!

Gallwch fynd i www.explorechurches.org/kids-fun-stuff am ragor o syniadau fel hyn a gweithgareddau a all eich helpu chi i ddod i wybod mwy ameglwysi hanesyddol ar draws y Deyrnas Gyfunol.